

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN
NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 27ain Tachwedd, 2023**

1

1.1 CROESO

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2 PRESENNOL

Cyng. Alun Morris(AR) (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Hefin Martin(MH)
Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. Eifion Williams(EW), Delyth
Algieri (clerc).

Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AR)

1.3 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Dylan Jones(DJ),

2. CADARNHAU'R COFNODION 23ain HYDREF 2023

Cynnigwyd yn gywir gan (JO) ac eilwyd gan (ND).

3. MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

3.1 DIFFIBRILIWR Y GYMUNED

Derbyniwyd e-bost gan Bennaeth Ysgol Llanddoged yn cadarnhau fod Tomos o'r
Ymatebwyr Cyntaf wedi gosod y cabinet newydd i'r Diffibriliwr y gymuned sydd wedi
ei osod ar wal yr ysgol.

Pasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo yn unfrydol i gadarnhau y bydd y
Cyngor Cymuned yn talu'r gost am osod y cabinet newydd a fydd yn amcan bris
oddeutu £150-£200.

4 CYNLLUNIO :-

4.1 Cyfeirnod: 0/51228 Mr Gwion Hughes : Trawsnewid ty allan i'w osod ar gyfer
gwyliau Pantyrych Mawr Ffordd Pant Yr Ych Mawr Maenan Llanwrst LL26 OYG

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

4.2 Cyfeirnod: 0/51238 Mr Neil Robertson -Anedd menter wledig (Amlinelliad)
Meadows by Fron Francis Llanwrst Conwy LL26 OTY

Trafodwyd y cais uchod a phasiwyd nad oes digon o wybodaeth gyda'r cais i'r
cyngor ddod i benderfyniad.

5. GOFYNION PRAESEPT 2024/25

Rhannodd y clerc taflen o amcan o gostau'r cyngor am y flwyddyn 2024/25.

Trafodwyd y costau fesul un a daeth aelodau'r cyngor i ganlyniad i godi'r praesept
am y flwyddyn ariannol 2024/25 i £600 ychwanegol sydd yn gyfanswm o £7,100.00.

6. CYNNAL A CHADW

6.1 Tyllau yn y ffordd wrth fynedfa Park, Maenan.

6.2 Angen Sweeper allt Penrhwyfla a lawr y ffordd am Bryn Rhydd Maenan.

6.3 Angen Sweeper allt y Wigfa hyd at Ysgol Maenan, Maenan.

6.4 Twll yn y ffordd wrth Carreg Ednyfed, Llanddoged.

6.5 Angen clirio'r draen wrth Pont Croes, Ffordd Twyn Swch, Llanddoged.

6.6 A470 – angen cysylltu gyda swyddogion Ffordd A470 i nodi fod pant reit ddwfn yn y ffordd A470 gyferbyn
a Chapel Tan y Celyn, Maenan.

7. UNRHYW FATER ARALL

7.1 ARGLOWDD TAN LAN, LLLANDDOGED.

Derbyniwyd gwybodaeth gan Gavin Jones, Arweinydd Tim, Cyflawni Prosiectau a Rhaglenni, Cyfoeth Naturiol Cymru am y penderfyniadau y maent yn ei ystyried ymhellach ar y rhestr fer:

- Gwaith cynnal a chadw Rheoli Perygl Llifogydd CNC yn cael ei dynnu'n ôl
- Creu Cynefinoedd Rhynglanwol

Byddai tynnu'r opsiwn cynnal a chadw yn ôl yn golygu y byddai CNC yn tynnu'n ôl o unrhyw waith cynnal a chadw Arglawdd Tan Lan yn y dyfodol a'r gollyngfeydd trwy Arglawdd Tan Lan. Yna gallai'r tirlfeddiannwr benderfynu a yw'n dymuno cyflawni gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol ai peidio. Pe bai'r tirlfeddiannwr yn penderfynu gwneud gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol, byddai angen y caniatâd perthnasol arno.

Byddai'r opsiwn ar gyfer creu cynefin rhynglanwol yn golygu creu cynefin rhynglanwol ar y tir fferm y tu ôl i'r arglawdd, trwy wneud newidiadau i'r arglawdd (diraddio naturiol, tynnu'n rhannol neu waredu'n llwyr). Dim ond gyda chytundeb pob tirlfeddiannwr y byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddatblygu, a byddai angen cytundeb cyfreithiol gyda iawndal yn cael ei dalu gan CNC neu brynu tir.

Bydd CNC nawr yn gofyn am adborth gan y perchnogion tir yr effeithir arnynt ynghylch opsiynau'r rhestr fer.

7.2 COEDEN NADOLIG

Cadarnhaodd y Cadeirydd Alun Morris fod y Goeden Nadolig ar gyfer pentref Llanddoged yn cael ei gosod ar y dydd Sul 3ydd o Ragfyr, 2023.

7.3 CAIS ARIANNOL

Darllenwyd llythyr gan Ambiwllans Awyr Cymru yn gofyn am rhodd ariannol gan y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i anfon rodd o £100 iddynt.

7.4 CYLCH MEITHRIN LLLANDDOGED

Diolchwyd i Cyng Anwen Jones am wirfoddoli i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar bwyllgorau Cylch Meithrin

a Ti a Fi sydd yn cael ei gynnal yn Ysgol Llanddoged.